# *Golygyddol*
# *Addysg fel cenhadaeth genedlaethol: rôl Cylchgrawn Addysg Cymru*

YR ATHRO GARY BEAUCHAMP, YR ATHRO
TOM CRICK A'R ATHRO ENLLI THOMAS

Mae'r rhifyn hwn yn cynrychioli'r cam nesaf yn esblygiad y cylchgrawn gyda thîm newydd o olygyddion, yn adeiladu ar waith ein rhagflaenwyr dros flynyddoedd lawer sydd wedi sicrhau bod y cylchgrawn wedi goroesi mewn cyfnod heriol. Mae'r ffaith bod y cylchgrawn nid yn unig wedi goroesi, ond yn dechrau ar gyfnod newydd yn ei ddatblygiad, yn dyst i waith yr holl olygyddion a byrddau golygyddol hynny a hoffem ddiolch i bob un ohonynt.

Yn 2018, trefnodd Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA) a Llywodraeth Cymru gynhadledd ar y cyd ar gyfer ymchwilwyr o brifysgolion, ysgolion a rhanddeiliaid eraill. Yn yr adroddiad ar y digwyddiad hwn, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at bwysigrwydd nid yn unig gwneud gwaith ymchwil, ond hefyd ei wneud yn weladwy ac yn hygyrch i bawb er mwyn helpu i ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd (BERA, 2019: 3). Gobeithiwn y bydd *Cylchgrawn Addysg Cymru*, sy'n cynnig ymchwil o ansawdd uchel am ddim i bawb, yn gwneud cyfraniad sylweddol at y nod hwn. Er mwyn helpu yn hyn o beth, mae bwrdd golygyddol newydd (sy'n cynrychioli pob SAU yng Nghymru) a bwrdd cynghori newydd (sy'n cynrychioli rhanddeiliaid allweddol) yn ymuno â ni. Gyda'n gilydd, byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn rhoi cipolwg ar addysg o amrywiaeth o ddisgyblaethau a lleoliadau i'n darllenwyr. Y prif egwyddorion, fodd bynnag, fydd bod yr ymchwil amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol ddwyieithog a gyhoeddwn yn seiliedig ar ddamcaniaeth, yn fethodolegol gadarn, yn cael ei dadansoddi'n drylwyr, ac yn cynnig canfyddiadau y gellir eu rhoi ar waith mewn lleoliadau addysgol ledled Cymru, ar bob oedran ac ym mhob sector.

*https://doi.org/10.16922/wje.23.1.1cym*

Yn unol â'n cysyniad eang o addysg, mae'r erthyglau yn y gyfrol gyfredol yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddulliau, grwpiau sampl a chwestiynau ymchwil. O safbwynt ymddygiadol, mae O'Boyle a Hoerger yn archwilio effaith fesuradwy ymyrraeth ddadansoddol ymddygiad ystafell ddosbarth pwrpasol ar allu disgyblion CA1 i gael mynediad at y cwricwlwm mewn ysgol Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a gynhelir yng Nghymru. Wedi'i osod o fewn cylch gwerthusol A-B-A traddodiadol (cyn-ymyrraeth, ymyrraeth, ôl-ymyrraeth), defnyddiodd yr awduron ddata asesu Graddfeydd P i olrhain cynnydd disgyblion yn y cwricwlwm ochr yn ochr â dau fesur safonedig o gyfathrebu derbyngar a mynegiannol, derbyniad gweledol, sgiliau echddygol, ymddygiad ymaddasol, sgiliau byw bob dydd a chymdeithasoli, sef *Mullen Scales of Early Learning* (Mullen, 1995) a'r *Vinelands Adaptive Behaviour Scales, Ail Argraffiad* (Sparrow, Cicchetti a Balla, 2005). Maent yn dod i'r casgliad y gall strategaethau sy'n seiliedig ar egwyddorion Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol ategu'r ddarpariaeth addysgol mewn ysgolion AAA a gynhelir, a gellir eu gweithredu'n eithaf effeithiol mewn ystafelloedd dosbarth AAA.

Mae Lewis a Thomas yn archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r syniad lluniadaethol o sgemâu ochr yn ochr â'u gwybodaeth a'u hybiant lles yn ystafell ddosbarth y Cyfnod Sylfaen drwy ddwyn ynghyd ganfyddiadau dwy astudiaeth wahanol. Defnyddiwyd dull astudiaeth achos yn y ddwy astudiaeth yn cynnwys arsylwadau, cyfweliadau a holiaduron, ac amlygodd y canlyniadau ambell beth cyffredin yn eu canfyddiadau. Yn y ddau achos, canfuwyd diffyg eglurder yng nghanllawiau cwricwlwm Llywodraeth Cymru ynghylch sgemâu a lles. Er bod datganiadau generig ar beth yw sgemâu yn nogfennau polisi'r Cyfnod Sylfaen, nid oes canllawiau penodol ar sut i gefnogi sgemâu'n ymarferol yn yr ystafell ddosbarth. Yn yr un modd, er bod cyfeiriadau at wahanol agweddau ar lesiant mewn gwahanol ddogfennau perthnasol, maent yn awgrymu bod diffyg eglurder ac arweiniad i ymarferwyr ynglŷn â sut i fynd ati i weithredu llesiant yn effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, maent yn dod i'r casgliad bod ymarferwyr yn teimlo mai dealltwriaeth gyfyngedig yn unig sydd ganddynt o sgemâu a llesiant, a sut i'w defnyddio'n ymarferol yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r awduron yn dadlau dros bwysigrwydd datblygiad proffesiynol cydweithredol a myfyrio beirniadol yng ngoleuni'r newid yn y cwricwlwm.

Gan symud ymlaen i addysg bellach (AB), mae Davies yn mabwysiadu egwyddorion economeg ymddygiadol i werthuso cryfderau a gwendidau gwahanol fodelau o ddewis, o ran cyfrwng iaith yr addysgu, fel y'u cyflwynir i fyfyrwyr mewn cyd-destunau AB cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Wedi'i

fframio o fewn cyd-destun strategol ehangach *Cymraeg 2050*, mae'r astudiaeth yn ceisio nodi rôl pensaernïaeth dewis wrth gefnogi neu gymhlethu galluoedd myfyrwyr i allu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddarparu argymhellion ar gyfer strategaethau effeithiol. Gan ddefnyddio cyfweliadau lled-strwythuredig gyda staff a grwpiau ffocws gyda myfyrwyr, mae'r canlyniadau'n awgrymu nad yw'r model 'optio i mewn' yn llwyddo i gynyddu'n sylweddol nifer y myfyrwyr sy'n dewis darpariaeth Gymraeg. Mae modelau optio i mewn yn rhoi cyfrifoldeb mawr ar y myfyrwyr eu hunain i ofyn am y ddarpariaeth honno ac mae'n ddibynnol iawn ar natur y cyfnewid cyfathrebu rhwng darlithydd a myfyriwr wrth 'ofyn' i ddysgwyr a ydynt yn dymuno astudio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r awdur yn dadlau o blaid mabwysiadu dull tadol rhyddfrydig, drwy addasu pensaernïaeth dewis o optio i mewn i optio allan er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Yn olaf, mae Jones yn cyflwyno myfyrdod beirniadol ar effaith bosibl y ffocws cynyddol ar ieithoedd tramor modern (ITM) yn y sector cynradd – fel y cynigir yn *Cwricwlwm Newydd i Gymru: 2022* – o ran cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ITM ar lefel TGAU a Safon Uwch, ac mae'n darparu cyfres o argymhellion i'w gweithredu. Mae'n adolygu'r heriau a nodwyd eisoes yng nghyd-destun Lloegr lle mae ITM wedi'u cyflwyno yn CA2 ers 2014, ac mae'n cynnig ffyrdd y gall ymarferwyr a dylunwyr y cwricwlwm ddysgu o'r arsylwadau hyn wrth weithredu'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm yng Nghymru. Mae'n cyflwyno adolygiad beirniadol o rôl cymhelliant, mwynhad ac anhawster tybiedig wrth gymell disgyblion i astudio ITM, a'r cyfyngiadau logistaidd a osodir ar fyfyrwyr sy'n dymuno astudio ITM pan fyddant yn gwrthdaro â phynciau eraill wrth ddewis eu pynciau. Mae'r papur yn cloi ar nodyn cadarnhaol gyda gair o rybudd sy'n dweud, er bod lle i wireddu gweledigaeth *Dyfodol Byd-eang* (Llywodraeth Cymru, 2015) drwy'r cyfleoedd newydd a gynigir gan y cwricwlwm newydd, mae angen i addysgwyr a llunwyr polisi gynllunio'n effeithiol er mwyn i hyn ddigwydd.

Mae'r erthygl olaf hon yn cyfeirio'n uniongyrchol at un o themâu trosfwaol diwygio'r cwricwlwm – ac yn wir y system addysg ehangach – yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020b), sydd wedi esgor ar lawer o graffu a sylw yn genedlaethol ac yn rhyngwladol (OECD, 2020). Ar drothwy diwygio system ar raddfa fawr, mae Cymru'n ficrocosm o'r heriau (a'r cyfleoedd) addysgol sy'n wynebu gwledydd ac awdurdodaethau eraill ledled y byd. Felly mae Cymru'n cynrychioli arbrawf polisi addysg ar raddfa genedlaethol y gellir ei olrhain sy'n hydrin ar gyfer diwygio a newid o'r fath, gan gynnwys

amrywiaeth o ymyriadau a mentrau arloesol, dwyieithog a chyd-adeiledig sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Ers cyhoeddi *Dyfodol Llwyddiannus*, adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (Donaldson, 2015), rydym wedi gweld y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm a diwygio cymwysterau yng Nghymru yn esblygu, gan arwain at gyhoeddi'r *Cwricwlwm i Gymru* newydd ym mis Ionawr 2020 (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae datblygiadau'r pum mlynedd diwethaf yn rhoi lens i edrych ar y pum mlynedd nesaf (Llywodraeth Cymru, 2020b): newidiadau sylweddol i addysg gychwynnol athrawon, safonau addysgu proffesiynol newydd, datblygu arweinwyr ar wahanol lefelau, ailfeddwl am atebolrwydd a rôl yr arolygiaeth, cydlyniad â diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol mawr (Llywodraeth Cymru, 2018), yn ogystal â gwerthuso effaith buddsoddiad ar raddfa fawr yn nysgu a datblygiad proffesiynol ymarferwyr.

Fel rhan o'r 'genhadaeth y genedl' ehangach, nod datblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE) Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod ymchwil, ymholiad a thystiolaeth yn chwarae rhan ystyrlon yn natblygiad ymarfer ym mhob agwedd ar ein system addysg. Dyma un maes lle gwelwn *Cylchgrawn Addysg Cymru* yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi a datblygu'r sylfaen ymchwil addysgol yng Nghymru ymhellach, drwy ddarparu lleoliad ar gyfer ystod amrywiol o gyflwyniadau o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu natur amrywiol dulliau a methodolegau ymchwil addysgol. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn croesawu ymchwil leol a rhyngwladol sy'n rhoi cipolwg ar lunio polisi ac arferion addysg yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. At hynny, nid yw'r cylchgrawn yn canol-bwyntio ar ysgolion ac addysg orfodol yn unig: rydym yn croesawu'n fawr ymchwil addysgol ar faterion sy'n effeithio ar bob agwedd ar addysg, o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg ôl-orfodol, hyfforddiant a dysgu gydol oes.

Nid oes fawr o amheuaeth bod 'Addysg yng Nghymru yn newid' (Llywodraeth Cymru, 2020b: 6). Edrychwn ymlaen yn fawr at yr erthyglau a ddaw i law *Cylchgrawn Addysg Cymru* yn y dyfodol, yn Gymraeg neu yn Saesneg, o Gymru a thu hwnt, a fydd yn helpu i lywio'r newid hwn er budd pawb mewn lleoliadau addysgol yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol.

## *Cyfeiriadau*

Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA) (2019). *The Future of Educational Research in Wales*. London: BERA. Gw. *https://www.bera.ac.uk/researchersresources/publications /the-future-of-e ducational-research-in-wales* (cyrchwyd 11 Ionawr 2020).

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Gw. *https://llyw.cymru/dyfodol-llwyddiannus-adolygiad-or-cwricwlwm-ar-trefniadau-asesu* (cyrchwyd 11 Ionawr 2020).

Llywodraeth Cymru (2015). *Dyfodol byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru). Gw. *https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018–02/dyfodol-byd-eang-cynllun-i-wella-a-hyrwyddo-ieithoedd-tramor-modern.pdf* (cyrchwyd 11 Ionawr 2020).

Llywodraeth Cymru (2018). *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.*

Gw. *hhttps://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru* (cyrchwyd 11 Ionawr 2020).

Llywodraeth Cymru (2020a). *Cwricwlwm i Gymru*. Gw. *https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru* (cyrchwyd 11 Ionawr 2020)

Llywodraeth Cymru (2020b). *Addysg yng Nghymru-Cenhadaeth ein Cenedl: diweddariad Hydref 2020.* Gw. *https://llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl-diweddariad-hydref-2020-html* (cyrchwyd 11 Ionawr 2020).

OECD (2020). *Achieving the New Curriculum for Wales*. Gw. *http://www.oecd. org/publications/achieving-the-new-curriculum-for-wales-4b483953-en.htm* (cyrchwyd 11 Ionawr 2020).

Sparrow, S. S., Cicchetti, D. V. a Balla, D. A. (2005). *The Vineland Adaptive Behavior Scales: Second Edition (Vineland II), survey interview form/caregiver rating form*. Livonia, MN: Pearson Assessments.